Adroddiad Cynghorydd Awst/Medi 2015

1)Bydd y **Tour of Britian** yn Nant y Garth dydd Sul, **Medi 6** a bydd y FFYRDD AR GAU mewn ag allan o Felin i gyfeiriad Bangor/Faenol /Llanberis 11 tan 2. Dewch i waelod Nant y Garth erbyn tua 12 i weld y beicwyr yn pasio heibio.

2) Dau gais cynllunio yn cael eu trafod yn y Pwyllgor dydd Llun, Medi 9 : **giatiau'r Cei** ac addasiadau i **Bron Menai**, Ffordd Helen.
https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau.aspx?pwyllgor=%2F2015-16%2FPwyllgor+Cynllunio_Planning+Committee%2F2015-09-07

Rwyf wedi gorfod datgan diddordeb efo'r cyntaf gan fod aelodau o'r teulu yn byw ger llaw ac nid oes hawl gen i siarad yn y Pwyllgor.

3) Mae CCG wedi addo gwelliannau i'r tir o gwmpas **RHYD Y FENAI** ers tro ac rwyf wedi gofyn am adroddiad am be sy'n digwydd. Mae'r Cyngor wedi torri y tyfiant ar lon Brynffynnon wythnos yma.

4) Mae Cyngor Gwynedd ar fin cychwyn ymgynghori a'r cyhoedd ynglŷn a'r **toriadau** gwerth £9M sydd angen eu gwneud a byddwn yn eich annog i gymryd rhan. Bydd y Cyngor yn cynnal sesiwn galw-heibio yn **Felin Sgwrsio ar Mawrth Medi 29** 3 tan 5.30 p.m.

5)**Stepiau Cei** : wedi cryn bwyso gen i, mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i wneud peth gwaith i ddiogelu'r wal fel fod modd ail-agor y llwybr cyhoeddus.

6)**BORE COFFI Mwya'r Byd**. Canolfan Feddygol Y Felinheli, dydd Gwener, **Medi 25**.

7)Dosbarthiadau nos Archaeoleg a Ffrangeg yn cychwyn yn Felin Sgwrsio a'r Neuadd Goffa dechra mis Hydref. Manylion ar www.felinheli.org (newyddion) Ffoniwch 01492 536693

8)Cae'r Ysgol: Ymddengys fod y broblem dwr wedi ei datrys.

9)**Ffordd Osgoi Y Felinheli**: rwyf wedi cael ymateb i'r pwyntiau sydd wedi codi yn Felin ynglŷn a chyflwr y ffyrdd cefn/materion diogelwch ger cylchfan Plas Menai. Mae rhain yn cael eu hystyried wrth greu'r cynllun manwl.

10)**MAP Llwybrau Cyhoeddus** : mae hwn wedi cael ei dderbyn frwd a chafwyd noson lansio wych ac arddangosfa yn Y Felin Sgwrsio. Diolch i bawb am eu gwaith caled. Cysylltwch os hoffech gopi o'r map. Bydd y Cyngor Cymuned yn trafod lleoliad ar gyfer dau hysbysfwrdd i arddangos y map yn y pentref. Mae'r Cyngor wrthi yn cynnal arolwg o gyflwr llwybrau cyhoeddus y pentref.

11) Cais cynllunio tai **Rowen** : cafodd hwn ei WRTHOD gan y Pwyllgor Cynllunio. Cefais gyfle i roi safbwynt y pentref ger bron.

12)Pawb yn hapus o weld wyneb newydd ar Ffordd Tafarngrisiau! Arosfan bws newydd wedi ei gosod ger Ger y Nant.

13)Caban Y Felinheli: cafwyd diwrnod agored llwyddiannus iawn. Bydd y syniad yn cael ei drafod ymhellach gan y Cyngor Cymuned. Mae angen gwirfoddolwyr i symud y prosiect yn ei flaen. Cysylltwch os oes gennych ddiddordeb.

14) Materion yn parhau i gael eu trafod efo'r Cyngor Cymuned

- dyfodol toiledau Lan y Mor
- gwelliannau Parc Cychod Lan y Mor
- yr aros-fan bws sydd wedi ei malurio yn Y Wern
- cyflwr y ffordd yn Ger y Nant a threfniadau casglu sbwriel
- gwelliannau i safle Moreia
- ymgyrch baw cŵn
- maes parcio a gwelliannau i Neuadd yr Eglwys
- creu llwybr yr arfordir drwy'r marina
- siglen ar gyfer plant anabl ym meysydd chwarae Y Wern a Lan y Mor
- arian i'r gymuned gan y cwmni sydd wedi adeiladu Parc Ynni Haul Parcia
- creu llwybr cyhoeddus i lawr i draeth Rowen
- arosfan bws newydd ar gyfer Aberpwll
- cynyddu faint o dai sydd ar gael i bobl leol ar rent ac i'w prynu
- Grŵp Iaith Gymraeg yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg yn y pentref

15) Ffair Gaeaf **Felin Sgwrsio** Tachwedd 14, Neuadd Goffa. Anfonwch fanylion am eich digwyddiadau i post@felinheli.org Mae rhaglen lawn o weithgareddau ar gael ar www.felinheli.org yn amrywio o yoga i glwb celf, gwersi Cymraeg I grosio a gwau. Mae digon o gyfle I gymdeithasu dros banad neu gawl.

16) Llongyfarchiadau i **Felin Gylchu** ar gyrraedd ei benblwydd yn dair oed! Codwyd ymhell dros £60,000 ar gyfer elusen gan y siop elusen yn Neuadd yr Eglwys yn ogystal a chynnig cyfleon gwirfoddoli a chymdeithasu i bentrefwyr o bob oed.

17) Sesiwn galw heibio cynghorydd wedi ail-ddechrau ar fore Gwener (10.30 – 11.30) Cofiwch hefyd am dudalen Facebook Y Felinheli. Diolch am eich cefnogaeth. .